Profion Darllen Cenedlaethol

# DARLLEN
## CC7

Enw cyntaf ____________________

Cyfenw ____________________

Ysgol ____________________

Dosbarth ____________________

Dyddiad geni ○○ ○○ ○○○○

Dyddiad y prawf ○○ ○○ 2019

Cyfanswm y sgôr ◯ (uchafswm 40)

YSGOL CYMERAU

177579

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cwestiynau ymarfer

**Yn y llyfryn hwn, mae nifer o gwestiynau i chi eu hateb mewn ffyrdd gwahanol. Dyma rai cwestiynau ymarfer a fydd yn dangos i chi sut i ateb y gwahanol gwestiynau sydd yn y prawf. Bydd y cyfarwyddiadau yn dweud wrthoch chi beth i'w wneud. I ddechrau, darllenwch y darn darllen sydd yn y bocs isod.**

> Pan ddeffrodd Gareth, roedd yr haul yn llifo drwy'r bwlch yn y llenni. Edrychodd ar y cloc. Wyth o'r gloch! Cofiodd yn sydyn mai heddiw oedd diwrnod cyntaf gwyliau'r haf. Haf hir, heulog o'i flaen. Ond roedd Rhys yn mynd ar wyliau i Ffrainc gyda'i deulu, Siôn yn mynd i Aberaeron at ei fodryb am bythefnos, Gwyn wedi'i ddewis i fynd ar gwrs pêl-droed, a Jac yn gweithio ar fferm y teulu. Roedd hi'n mynd i fod yn haf hir, unig i Gareth.
>
> Llusgodd ei hun i'r ystafell ymolchi a thaflu ychydig o ddŵr ar ei wyneb, cyn mynd i lawr y grisiau am frecwast. Roedd ei dad wedi gadael am yr ysbyty cyn i Gareth ddeffro. Rhoi ei bag yn y car oedd ei fam.
>
> "Mae dy dad wedi mynd i'r gwaith ers oriau, Gareth. Dw i'n cychwyn am y swyddfa. Mae cinio'n barod i ti yn yr oergell. Wela i di tua pedwar. Mwynha."

**a** Ble roedd mam Gareth yn gweithio?

Ticiwch **1**.

- ar fferm ☐
- yn Aberaeron ☐
- mewn swyddfa ☐
- mewn ysbyty ☐

Awgrym: Gwiriwch sawl ateb sydd ei angen.

---

**b** Edrychwch ar y geiriau yn y blwch hwn.

Awgrym: Gwiriwch sawl gair sydd angen ei danlinellu.

**Tanlinellwch 2** air sy'n awgrymu na fydd Gareth yn mwynhau ei wyliau.

> Ond roedd Rhys yn mynd ar wyliau i Ffrainc gyda'i deulu, Siôn yn mynd i Aberaeron at ei fodryb am bythefnos, Gwyn wedi'i ddewis i fynd ar gwrs pêl-droed, a Jac yn gweithio ar fferm y teulu. Roedd hi'n mynd i fod yn haf hir, unig i Gareth.

Awgrym: Os ydych chi'n gwneud camgymeriad ac eisiau newid eich ateb, dylech chi ddileu'r ateb cyntaf yn llwyr cyn tynnu llinell newydd.

---

**c** **Dewiswch a chopïwch 1** gair i nodi un o'r pethau welodd Gareth o'i wely.

Awgrym: Dylech chi edrych eto ar y stori i ddod o hyd i'r ateb.

______________________________

---

YSGOL CYMERAU

**ch** Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Roedd llawer o gwmni gan Gareth. | | |
| Digwyddodd y stori ar ddiwrnod olaf y gwyliau. | | |
| Roedd hi'n ddiwrnod braf. | | |

**d** Rhowch y digwyddiadau hyn yn nhrefn amser, o 1 i 5.
Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| Gareth yn rhoi dŵr ar ei wyneb. | ☐ |
| Mam Gareth yn cychwyn am y gwaith. | ☐ |
| Gareth yn deffro. | ☐ |
| Gareth yn edrych ar y cloc. | ☐ |
| Tad Gareth yn mynd i'w waith. | 1 |

YSGOL GYMERAU

**dd** Tynnwch **3** llinell i ddangos sut roedd ffrindiau Gareth yn treulio wythnosau cyntaf y gwyliau.

| | |
|---|---|
| ymweld â'i fodryb | Gwyn |
| cwrs pêl-droed | Rhys |
| gwyliau teuluol | Siôn |

## STOPIWCH

**Arhoswch am ganiatâd cyn dechrau gweithio ar dudalen 4.**

**Yn y llyfryn hwn mae tri darn i chi eu darllen a bydd angen i chi ateb cwestiynau ar bob un. Darllenwch y darn cyntaf yn ofalus cyn dechrau ateb y cwestiynau ar y darn. Yna darllenwch yr ail ddarn cyn ateb y cwestiynau, ac yn y blaen.**

**Dylech chi weithio drwy'r llyfryn, hyd at ddiwedd tudalen 19, gan stopio pan fydd rhywun yn dweud wrthoch chi am wneud hynny. Cewch gyfeirio at y testun pan fydd angen.**

**Mae gennych chi hyd at 60 munud i wneud y prawf.**

# Diogelu'r draenog

*Dyma gyfweliad gyda Sarah Worth o Fangor, sydd wedi ymateb i'r newyddion bod draenogod mewn perygl drwy helpu'r creaduriaid bach pigog.*

**Ers pryd mae gennych chi ddiddordeb mewn draenogod?**
Ers mis Rhagfyr 2013, pan wnes i ddarganfod bod un o'n creaduriaid gwyllt mwyaf hoffus mewn perygl o ddiflannu am byth. Yn ôl yr amcangyfrifon, roedd dros 30 miliwn o ddraenogod yng ngwledydd Prydain yn y 1950au, ond mae llai na miliwn ar ôl heddiw, meddai'r arbenigwyr. Dw i wedi cymryd diddordeb mewn draenogod ers hynny.



**Beth sy'n gyfrifol am y dirywiad?**
Mae sawl rheswm, gan gynnwys colli cynefin, mwy o draffig ar ein ffyrdd, a garddwyr yn cadw eu gerddi yn rhy daclus ac yn defnyddio cemegion.

**Beth ydych chi wedi'i wneud i'w helpu?**
Ar ôl cael fy nychryn gan y bygythiad i'r draenog, mi wnes i adduned blwyddyn newydd i wneud rhywbeth i helpu'r creadur eiconig yma. Ym mis Ionawr 2014, cysylltais i â Chymdeithas Diogelu'r Draenog i ofyn beth allwn i ei wneud i helpu. I ddechrau, dyma nhw'n awgrymu fy mod i'n hyfforddi i fod yn wirfoddolwr sy'n helpu i achub a gwella draenogod. Felly, mi wnes i gwrs i ddysgu sut i roi cymorth cyntaf a gofal i ddraenogod. Ers hynny, mae fy nghartref wedi dod yn ysbyty i ddraenogod gwyllt.

Fel gwirfoddolwr, dw i'n dod â draenogod sy'n sâl neu sydd wedi brifo, neu ddraenogod bach amddifad i fy nghartref ac yn gofalu amdanyn nhw nes eu bod nhw'n barod i gael eu rhyddhau yn ôl i'w cynefin gwyllt.

**Sut ydych chi'n gwybod bod angen help ar ddraenog?**
Creaduriaid y nos yw draenogod a dylen nhw ddim bod allan yn ystod y dydd. Os gwelwch chi ddraenog yng ngolau dydd, mae angen rhoi sylw iddo. Yn amlwg, mae'n rhaid i unrhyw ddraenog sydd wedi'i anafu weld milfeddyg neu fynd i ysbyty bywyd gwyllt mor fuan â phosibl.

**Oeddech chi'n gwybod?**



- Ar gyfartaledd, mae tua 6,000 o bigau ar ddraenog llawn dwf.
- Tua 25mm yw hyd y pigau.
- Mae oedolyn iach yn pwyso tua 900 gram.
- Mae draenogod yn cerdded am filltiroedd bob nos ar gyflymder o tua 6 milltir yr awr.
- Mae tua 10,000 o ddraenogod yn cael eu lladd ar y ffyrdd bob blwyddyn.
- Dylech chi byth roi llaeth* i ddraenogod am nad ydyn nhw'n gallu treulio lactos a gallai eu gwneud nhw'n sâl iawn.
- Rhwng mis Tachwedd a chanol mis Mawrth bydd draenogod yn gaeafgysgu mewn pentyrrau o ddail neu frigau.
- Mae pobl yn galw draenogod yn 'ffrind y garddwr' oherwydd eu bod nhw'n bwyta malwod, chwilod a lindys sy'n gwneud niwed i blanhigion.
- Gall garddwyr helpu ac amddiffyn draenogod trwy chwilio amdanyn nhw cyn defnyddio peiriannau garddio neu gynnau coelcerth. Trwy adael bwlch mewn ffensys a gadael lle o dan giatiau mae modd sicrhau bod draenogod yn gallu teithio drwy'r ardd.

* llaeth – llefrith

1 Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Yn y 1950au, roedd llai na miliwn o ddraenogod yng ngwledydd Prydain. | | |
| Mae Sarah Worth wedi gwneud rhywbeth i helpu draenogod. | | |
| Y peth cyntaf wnaeth Sarah Worth oedd agor ysbyty i ddraenogod. | | |
| Mae Sarah Worth yn gadael i'r draenogod fynd yn ôl i'r gwyllt wedi iddyn nhw wella. | | |
| Mae'n anghyffredin gweld draenogod allan yn y dydd. | | |

1 2m

2 Rhowch y digwyddiadau hyn ym mywyd Sarah Worth o Fangor yn eu trefn, o 1 i 5.
Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

gwneud adduned blwyddyn newydd i helpu draenogod ☐
dysgu sut i roi cymorth cyntaf i ddraenogod a gofalu amdanyn nhw ☐
deall bod perygl y bydd draenogod yn diflannu 1
agor ysbyty i ddraenogod yn ei chartref ☐
cysylltu â Chymdeithas Diogelu'r Draenog ☐

2 1m

YSGOL CYMERAU

3 Pa resymau sy'n cael eu nodi yn y darn i egluro pam mae llai o ddraenogod erbyn hyn?

Ticiwch **3**.

mwy o geir ar y ffordd ☐
pobl yn cadw eu gerddi'n daclus ☐
anifeiliaid yn ymosod arnyn nhw ☐
defnyddio cemegion i reoli pryfed ☐
garddwyr yn eu lladd ☐

3 1m

*trosodd*

CYFANSWM 4m

**4** Dyma gopi o'r darn.

Labelwch bob saeth i ddangos beth mae'r awdur yn ei ddefnyddio i wneud yr wybodaeth yn hawdd i'w darganfod.

**A** – pwyntiau bwled

**B** – is-bennawd

**C** – teitl

**Ch** – cwestiwn ac ateb

**Diogelu'r draenog**

*Dyma gyfweliad gyda Sarah Worth o Fangor, sydd wedi ymateb i'r newyddion bod draenogod mewn perygl drwy helpu'r creaduriaid bach pigog.*

**Ers pryd mae gennych chi ddiddordeb mewn draenogod?**
Ers mis Rhagfyr 2013, pan wnes i ddarganfod bod un o'n creaduriaid gwyllt mwyaf hoffus mewn perygl o ddiflannu am byth. Yn ôl yr amcangyfrifon, roedd dros 30 miliwn o ddraenogod yng ngwledydd Prydain yn y 1950au, ond mae llai na miliwn ar ôl heddiw, meddai'r arbenigwyr. Dw i wedi cymryd diddordeb mewn draenogod ers hynny.



**Beth sy'n gyfrifol am y dirywiad?**
Mae sawl rheswm, gan gynnwys colli cynefin, mwy o draffig ar ein ffyrdd, a garddwyr yn cadw eu gerddi yn rhy daclus ac yn defnyddio cemegion.

**Beth ydych chi wedi'i wneud i'w helpu?**
Ar ôl cael fy nychryn gan y bygythiad i'r draenog, mi wnes i adduned blwyddyn newydd i wneud rhywbeth i helpu'r creadur eiconig yma. Ym mis Ionawr 2014, cysylltais i â Chymdeithas Diogelu'r Draenog i ofyn beth allwn i ei wneud i helpu. I ddechrau, dyma nhw'n awgrymu fy mod i'n hyfforddi i fod yn wirfoddolwr sy'n helpu i achub a gwella draenogod. Felly, mi wnes i gwrs i ddysgu sut i roi cymorth cyntaf a gofal i ddraenogod. Ers hynny, mae fy nghartref wedi dod yn ysbyty i ddraenogod gwyllt.

Fel gwirfoddolwr, dw i'n dod â draenogod sy'n sâl neu sydd wedi brifo, neu ddraenogod bach amddifad i fy nghartref ac yn gofalu amdanyn nhw nes eu bod nhw'n barod i gael eu rhyddhau yn ôl i'w cynefin gwyllt.

**Sut ydych chi'n gwybod bod angen help ar ddraenog?**
Creaduriaid y nos yw draenogod a dylen nhw ddim bod allan yn ystod y dydd. Os gwelwch chi ddraenog yng ngolau dydd, mae angen rhoi sylw iddo. Yn amlwg, mae'n rhaid i unrhyw ddraenog sydd wedi'i anafu weld milfeddyg neu fynd i ysbyty bywyd gwyllt mor fuan â phosibl.

**Oeddech chi'n gwybod?**



- Ar gyfartaledd, mae tua 6,000 o bigau ar ddraenog llawn dwf.
- Tua 25mm yw hyd y pigau.
- Mae oedolyn iach yn pwyso tua 900 gram.
- Mae draenogod yn cerdded am filltiroedd bob nos ar gyflymder o tua 6 milltir yr awr.
- Mae tua 10,000 o ddraenogod yn cael eu lladd ar y ffyrdd bob blwyddyn.
- Dylech chi byth roi llaeth* i ddraenogod am nad ydyn nhw'n gallu treulio lactos a gallai eu gwneud nhw'n sâl iawn.
- Rhwng mis Tachwedd a chanol mis Mawrth bydd draenogod yn gaeafgysgu mewn pentyrrau o ddail neu frigau.
- Mae pobl yn galw draenogod yn 'ffrind y garddwr' oherwydd eu bod nhw'n bwyta malwod, chwilod a lindys sy'n gwneud niwed i blanhigion.
- Gall garddwyr helpu ac amddiffyn draenogod trwy chwilio amdanyn nhw cyn defnyddio peiriannau garddio neu gynnau coelcerth. Trwy adael bwlch mewn ffensys a gadael lle o dan giatiau mae modd sicrhau bod draenogod yn gallu teithio drwy'r ardd.

* llaeth – llefrith

4 1m

**5** Beth sy'n fwyd naturiol i ddraenog?

Ticiwch **3**.

- bara ☐
- llaeth ☐
- malwod ☐
- dail ☐
- chwilod ☐
- lindys ☐

5 1m

**6** Pam mae'r draenog yn cael ei alw yn 'ffrind y garddwr'?

Ticiwch **1**.

- Mae'n helpu i gadw'r ardd yn daclus. ☐
- Mae'n casglu dail yn bentyrrau taclus. ☐
- Mae'n bwyta creaduriaid sy'n gwneud niwed i'r ardd. ☐
- Mae'n teithio o un ardd i'r nesaf. ☐

6 1m

**7** Tynnwch **4** llinell i gysylltu'r geiriau hyn â'r ystyron.

| | |
|---|---|
| cynefin | rhywun sy'n helpu heb dderbyn tâl |
| gwirfoddolwr | addewid i wneud rhywbeth arbennig |
| coelcerth | lle mae rhywbeth yn arfer byw |
| adduned | tân mawr i losgi gwastraff |

7
1m

**8** Yn ôl y darn, pa broblemau sy'n wynebu draenogod?

Ticiwch **2**.

- gorfod croesi ffyrdd prysur ☐
- anifeiliaid anwes yn bwyta eu bwyd ☐
- gerddi yn cael eu gadael heb eu tacluso ☐
- garddwyr yn defnyddio cemegion yn eu gerddi ☐
- dim digon o laeth ar gael ☐

8
1m

**9** Darllenwch yr wybodaeth yn y blwch *Oeddech chi'n gwybod?*

YSGOL CYMERAU

**Dewiswch** a **chopïwch** y geiriau sy'n disgrifio ble bydd y draenog yn treulio misoedd y gaeaf.

______________________________________________

______________________________________________

9
1m

**10** Dewiswch y geiriau **gorau** i gwblhau'r frawddeg. Ticiwch **1** bob tro.

**Mae'n bosibl i bob un ohonon ni helpu'r draenog drwy . . .**

(a) gadw'r ardd yn daclus. ☐ roi llaeth iddo. ☐
gynnau coelcerth yn yr ardd. ☐ greu bylchau iddo allu teithio drwy'r ardd. ☐

**Os gwelwch chi ddraenog yn ystod y dydd, y peth gorau i'w wneud yw . . .**

(b) rhoi pentwr o ddail drosto. ☐ edrych arno yn fanwl i weld a yw wedi brifo. ☐
gadael llonydd iddo. ☐ galw am y milfeddyg. ☐

10
1m

*trosodd*

CYFANSWM
7m

**11** Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Mae gofalu am ddraenogod yn bwysig i Sarah Worth. | | |
| Dim ond milfeddyg sy'n gallu helpu draenog sydd wedi brifo i wella. | | |
| Dydy garddwyr ddim yn gallu helpu'r draenog. | | |
| Mae'n bosibl na fydd draenogod yn byw yng Nghymru yn y dyfodol. | | |
| Mae Sarah Worth yn dweud ei bod hi'n rhy hwyr i achub y draenog. | | |

11 2m

**12** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

**Tanlinellwch 1** gair sy'n dangos bod Sarah Worth yn gofalu am ddraenogod ifanc sydd wedi colli eu tad a'u mam.

YSGOL CYMERAU

> Fel gwirfoddolwr, dw i'n dod â draenogod sy'n sâl neu sydd wedi brifo, neu ddraenogod bach amddifad i fy nghartref ac yn gofalu amdanyn nhw nes eu bod nhw'n barod i gael eu rhyddhau yn ôl i'w cynefin gwyllt.

12 1m

**13** Darllenwch ateb Sarah Worth i'r cwestiwn cyntaf eto.

**Dewiswch** a **chopïwch** y **2** air sy'n dangos bod y draenog yn anifail poblogaidd iawn.

______________________________________________

13 1m

YSGOL CYMERAU

*trosodd*

CYFANSWM

4m

# Y gyfrinach

"Hwyl! Wela i chi fory!"



Camodd Ifan Hopcyn oddi ar y bws a rhoi ochenaid o ryddhad. Doedd neb wedi'i ddilyn. Safodd ar y palmant am funud fach, gan wylio'r bws yn bustachu i fyny'r bryn. Wedi i'r bws a'r plant eraill ddiflannu o'r golwg, anadlodd yn ddwfn, a gwenu. Roedd ei ddiwrnod cyntaf yn Ysgol Cil y Deryn wedi dod i ben a doedd neb wedi amau dim.

Pan oedd yn berffaith siŵr nad oedd neb yn ei wylio, croesodd y ffordd, a cherdded yn ei flaen nes dod at ffens bren oedd yn amgylchynu coedwig fawr. Gydag un naid uchel, llamodd dros y ffens, gan lanio – sblat – mewn pwll o fwd. Roedd ei esgidiau a'i drowsus ysgol newydd yn wlyb a mwdlyd, ond aeth yn ei flaen heb oedi dim. Ni allai wastraffu eiliad, rhag ofn i rywun ei weld. Rhedodd nerth ei draed drwy'r coed. Neidiodd dros foncyffion a chreigiau. Trodd i'r chwith wrth ymyl y dderwen hynaf yng Nghymru, nes dod at glamp o graig hirgron, yr un siâp yn union â phêl rygbi anferthol. Gan edrych yn gyflym dros ei ysgwydd, rhoddodd ei law yn ei boced i estyn y gwglach, sef allwedd electronig ddisglair. Mwythodd wyneb y graig nes dod o hyd i dwll bach siâp petryal, a gwthiodd y gwglach i mewn iddo.

Gwiiiiich! Agorodd hollt yn y graig – un digon mawr i Ifan wasgu ei hun drwyddo. Tynnodd ei hun ymlaen nes glanio ar ei bedwar yng nghrombil tywyll y graig. Ar ôl cau'r hollt yn dynn ar ei ôl, defnyddiodd ei ffôn symudol fel fflachlamp i ddod o hyd i dwnnel yn y llawr, a neidiodd i mewn iddo.

"Wiiii!" gwaeddodd, wrth iddo saethu'n is ac yn is drwy'r twnnel i berfeddion y graig, yn bell o dan y ddaear. "We-hei!" meddai wedyn, wrth i'r twnnel droelli o'r chwith i'r dde ac o'r dde i'r chwith, fel neidr aflonydd. Yna, gyda sŵn mawr – fflop – glaniodd ar ei ben-ôl ar soffa feddal mewn ystafell olau braf. Roedd wedi cyrraedd ystafell fyw ei deulu.

"Mam! Dw i gartref!" gwaeddodd, gan sychu llwch y graig o'i lygaid.

"Wel? Sut aeth pethau?" holodd ei fam, gan ddiffodd ei chyfrifiadur a symud i eistedd wrth ei ochr ar y soffa.

"Iawn . . . grêt. Roedd pawb yn garedig iawn."

"Da iawn. Wnaeth yr athrawon neu'r plant ofyn llawer o gwestiynau i ti?"

"Wel, roedd pawb eisiau gwybod o ble ro'n i'n dod – ac fe ddywedais i fod ein teulu ni wedi bod yn byw dramor, ond dy fod di a Dad wedi cael gwaith yma nawr. Dywedais ein bod ni'n byw yn un o'r tai newydd gyferbyn â'r goedwig. Welodd neb fi'n dod yma."

"Da iawn, Ifan. Mae'n rhaid i ni fod mor ofalus. Allwn ni ddim fforddio gadael i neb ein hamau ni. Rhaid i ni gadw'r gyfrinach. Rhaid gwneud yn siŵr nad oes neb yn dod i fusnesu fan hyn."

**1** Beth yw ffurf y darn?

Ticiwch **1**.

- llythyr ☐
- adroddiad ☐
- stori ☐
- araith ☐

1 1m

**2** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

**Tanlinellwch 1** gair sy'n dangos bod y bws yn cael trafferth wrth fynd yn ei flaen ar hyd y ffordd.

> Camodd Ifan Hopcyn oddi ar y bws a rhoi ochenaid o ryddhad. Doedd neb wedi'i ddilyn. Safodd ar y palmant am funud fach, gan wylio'r bws yn bustachu i fyny'r bryn. Wedi i'r bws a'r plant eraill ddiflannu o'r golwg, anadlodd yn ddwfn, a gwenu.

2 1m

YSGOL CYMERAU

**3** **Dewiswch** a **chopïwch 1** ansoddair sydd yn y frawddeg isod.

> "We-hei!" meddai wedyn, wrth i'r twnnel droelli o'r chwith i'r dde ac o'r dde i'r chwith, fel neidr aflonydd.

______________________________

3 1m

**4** Tynnwch **4** llinell i gysylltu'r manylion yn y darn.

| | |
|---|---|
| ffôn symudol | troelli o ochr i ochr |
| gwglach | rhoi golau |
| mam Ifan | agor bwlch yn y graig |
| twnnel | diffodd cyfrifiadur |

4 1m

*trosodd*

CYFANSWM 4m

**5** Edrychwch ar ddechrau'r darn darllen. Pam wnaeth yr awdur gloi'r paragraff cyntaf gyda'r frawddeg, *Roedd ei ddiwrnod cyntaf yn Ysgol Cil y Deryn wedi dod i ben a doedd neb wedi amau dim*?

Ticiwch **1**.

- I ddangos cymeriad Ifan. ☐
- I ddangos sut blant sydd yn yr ysgol. ☐
- I wneud i'r darllenydd feddwl am beth mae Ifan yn ei guddio. ☐
- I atgoffa'r darllenydd beth sydd wedi cael ei ddweud o'r blaen. ☐

5
1m

---

**6** Rhowch y digwyddiadau hyn yn eu trefn, o 1 i 5.
Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| Ifan yn neidio dros ffens | ☐ |
| Ifan yn gwasgu trwy hollt mewn craig | ☐ |
| Ifan yn croesi ffordd | 1 |
| Ifan yn rhedeg trwy goedwig | ☐ |
| Ifan yn neidio i mewn i dwnnel | ☐ |

6
1m

YSGOL CYMERAU

---

**7** Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Roedd Ifan a'i deulu yn byw mewn tŷ newydd gyferbyn â'r goedwig. | | |
| Roedd gan Ifan ffôn symudol. | | |
| Roedd gan Ifan allwedd arbennig. | | |
| Roedd Ifan wedi cadw ei wisg ysgol yn lân. | | |
| Doedd mam Ifan ddim eisiau i neb ddod o hyd i'w cartref. | | |

7
2m

**8** Ar ddiwedd y darn, mae mam Ifan yn ei ganmol. Pam?

Ticiwch **2.**

- Roedd Ifan wedi gweithio'n dda yn yr ysgol. ☐
- Roedd Ifan wedi rhannu eu cyfrinach. ☐
- Doedd neb wedi gweld Ifan yn cyrraedd ei gartref. ☐
- Roedd Ifan wedi llwyddo i ddefnyddio'r gwglach. ☐
- Roedd Ifan wedi helpu ei dad gyda'i waith. ☐
- Roedd Ifan wedi llwyddo i ateb cwestiynau pawb. ☐

8 — 1m

---

**9** Dyma rannau o'r testun.
Labelwch bob saeth i ddangos pa nodweddion arddull mae'r awdur yn eu defnyddio.

**A** – ansoddair

**B** – deialog

**C** – onomatopeia

**Ch** – cymhariaeth/ cyffelybiaeth

**D** – idiom/ dywediad

☐ → Gydag un naid uchel, llamodd dros y ffens, gan lanio – sblat – mewn pwll o fwd. Roedd ei esgidiau a'i drowsus ysgol newydd yn wlyb a mwdlyd, ond aeth yn ei flaen heb oedi dim. Ni allai wastraffu eiliad, rhag ofn i rywun ei weld. Rhedodd nerth ei ☐ → draed drwy'r coed. Neidiodd dros foncyffion a chreigiau . . .

Ar ôl cau'r hollt yn dynn ar ei ôl, defnyddiodd ei ffôn symudol fel fflachlamp i ddod o hyd i dwnnel yn y llawr, a neidiodd i mewn iddo.

"Wiiii!" gwaeddodd, wrth iddo saethu'n is ac yn is drwy'r twnnel i berfeddion y graig, yn bell o dan y ddaear. "We-hei!" meddai wedyn, wrth i'r twnnel droelli o'r chwith i'r dde ac o'r dde i'r chwith, fel neidr aflonydd. ← ☐ Yna, gyda sŵn mawr – fflop – glaniodd ar ei ben-ôl ar soffa feddal mewn ystafell olau braf . . . ← ☐

☐ → "Mam! Dw i gartref!" gwaeddodd, gan sychu llwch y graig o'i lygaid.

9 — 2m

---

*trosodd*

CYFANSWM 7m

**10** Dewiswch y geiriau **gorau** i gwblhau pob brawddeg. Ticiwch **1** bob tro.

**Roedd Ifan wedi dweud yn yr ysgol bod y teulu wedi bod yn byw . . .**

(a) dros y môr. ☐ o dan y ddaear. ☐ yn y goedwig. ☐ ar waelod y bryn. ☐

**Er mwyn cyrraedd y tŷ lle'r oedd Ifan yn byw roedd yn rhaid mynd . . .**

(b) i ben y bryn. ☐ i ben craig anferth. ☐ i ganol y goedwig. ☐ i ymyl y palmant. ☐

10

1m

YSGOL CYMERAU

*trosodd*

CYFANSWM

1m

YSGOL CYMERAU

# Achub y cwm



Yn y gorffennol cafodd nifer o gymoedd Cymru eu boddi er mwyn creu cronfeydd dŵr:

**1880au** – Boddwyd pentref Llanwddyn, nifer o ffermydd a 1,120 erw o dir i greu cronfa ddŵr Efyrnwy er mwyn i Lerpwl gael dŵr.

**Rhwng 1890 a 1952** – Adeiladwyd pum argae anferth yn nyffrynnoedd Elan a Chlaerwen ger Rhaeadr Gwy, er mwyn i Birmingham gael cyflenwad dŵr. Roedd 100 o bobl yn gorfod gadael eu cartrefi.

**1965** – Boddwyd cwm Tryweryn ger y Bala er mwyn creu cronfa i gyflenwi dŵr i Lerpwl. Gorfodwyd 48 o bobl i adael pentref Capel Celyn, a chafodd yr ysgol a chapel y pentref eu chwalu.

Yn **1963** cyhoeddodd Cyngor Abertawe eu bod yn ystyried boddi Cwm Gwendraeth Fach i gael dŵr i'r ddinas. Unodd pobl y cwm mewn ymgyrch i amddiffyn eu ffermydd, eu tir a'u tai. Gwnaethon nhw'n siŵr nad oedd swyddogion y cyngor yn gallu cael mynediad i'w tir trwy gloi giatiau a defnyddio peiriannau i gau pob bwlch. Yn wahanol i ymgyrch Tryweryn, roedd hon yn brotest lwyddiannus. Achubwyd y cwm hwn rhag diflannu o dan ddŵr.

*Dyma ran o ddyddiadur Beca oedd yn 11 oed ac yn byw yn Llangyndeyrn, Cwm Gwendraeth Fach, adeg yr ymgyrch i achub y cwm.*



YSGOL CYMERAU

**Dydd Gwener, 15 Mawrth 1963**

Diwrnod ofnadwy. Roeddwn i mor hapus ddoe ond heddiw mae popeth ar chwâl.

Yn y *Journal* heddiw roedd e'n dweud bod Cyngor Abertawe wedi cael cyfarfod ar 21 Chwefror a'u bod nhw o ddifrif nawr yn meddwl am foddi ein cwm ni. Bydd rhyw ddynion yn dod i Langyndeyrn i edrych ar y ffermydd a'r tir er mwyn paratoi cynllun i'w boddi nhw. Bydd wyth o ffermydd o dan ddŵr a thair ar ddeg arall yn colli cymaint o dir fel na fyddan nhw'n werth eu ffermio. Bydd Allt y Cadno yn mynd, y Wern, Limestone, Pant-teg, Ynys Faes, Torcoed Isa, Glan-yr-ynys a Llandre.

Dydyn nhw ddim yn sylweddoli y bydd popeth yn diflannu, gan gynnwys yr ysgol. Na, fydd hi ddim yn mynd dan y dŵr ond fydd yna ddim digon o blant yn byw yma i'w chadw ar agor ac mae ysgol wedi bod yn y pentref ers 1846. Fydd yr eglwys ddim yn mynd, ond fydd neb yma i fynd iddi ac mae eglwys wedi bod yn y pentref ers y chweched ganrif. Fydd capel Bethel ddim yn mynd, ond bydd y fynwent yn diflannu. Bydd afon Gwendraeth Fach yn troi'n llyn a bydd pont Allt y Cadno yn mynd gyda'r llif. Fydd yna ddim trip Ysgol Sul. Dim dramâu na chyngherddau yn y neuadd. Dim eisteddfod. Dim dawnsfeydd. Dim sgwrsio yn y post a siop Dai. Dim cymdeithasu yn nhafarndai'r Smith's a'r Farmer's. Dim pobl ifanc yn cerdded i bont Allt y Cadno fin nos. Dim canu carolau. Dim hel calennig.

Bydd yr holl bethau hyn yn diflannu ac os bydd y cwm yn cael ei foddi bydd iaith naturiol y pentref, sef y Gymraeg, yn marw.

**1** Roedd protest pobl Cwm Gwendraeth Fach yn wahanol i brotest pobl Capel Celyn oherwydd . . .

Ticiwch **1**.

roedd dyfodol y cwm mewn perygl. ☐
roedd hi'n llwyddiannus. ☐
roedd mewn gwlad wahanol. ☐
roedd mewn degawd gwahanol. ☐

1
1m

**2** Darllenwch yr wybodaeth am ddyffrynnoedd Elan a Chlaerwen.

**Dewiswch** a **chopïwch 1** gair sy'n dangos beth gafodd ei adeiladu.

______________________________

2
1m

**3** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

**Tanlinellwch 1** gair sy'n golygu 'meddwl'.

YSGOL CYMERAU

> Yn **1963** cyhoeddodd Cyngor Abertawe eu bod yn ystyried boddi Cwm Gwendraeth Fach i gael dŵr i'r ddinas. Unodd pobl y cwm mewn ymgyrch i amddiffyn eu ffermydd, eu tir a'u tai.

3
1m

**4** Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg sy'n sôn am gynllun boddi Cwm Gwendraeth Fach.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Byddai neb ar ôl i fynd i eglwys Llangyndeyrn. | | |
| Byddai tair ar ddeg fferm yn cael eu boddi'n llwyr. | | |
| Byddai'r trip Ysgol Sul yn parhau. | | |
| Byddai'r cynllun yn cael effaith ar y Gymraeg. | | |
| Byddai bywyd y pentref yn parhau fel o'r blaen. | | |

4
2m

*trosodd*

CYFANSWM
5m

**5** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

**Tanlinellwch 1** gair sy'n dangos bod **rhaid** i bobl Capel Celyn symud o'u cartrefi.

| |
|---|
| **1965** – Boddwyd cwm Tryweryn ger y Bala er mwyn creu cronfa i gyflenwi dŵr i Lerpwl. Gorfodwyd 48 o bobl i adael pentref Capel Celyn, a chafodd yr ysgol a chapel y pentref eu chwalu. |

5 1m

**6** Beth wnaeth ffermwyr Llangyndeyrn, Cwm Gwendraeth Fach i gadw swyddogion Cyngor Abertawe oddi ar eu tir?

Ticiwch **2**.

- gosod rhwystrau ar draws y ffordd ☐
- cloi giatiau i'w tir ☐
- gollwng eu cŵn yn rhydd ☐
- gorymdeithio i'w cyfarfod ☐
- gosod peiriannau ar draws pob mynedfa ☐

6 1m

YSGOL CYMERAU

**7** Beth yw ystyr y frawddeg hon?

*Achubwyd y cwm hwn rhag diflannu o dan ddŵr.*

Ticiwch **1**.

- Diflannodd y cwm o dan y dŵr. ☐
- Gwnaeth y cwm achub y bobl o'r dŵr. ☐
- Doedd y cwm ddim wedi'i foddi. ☐
- Cafodd pobl y cwm eu hachub o'r dŵr. ☐

7 1m

**8** Ticiwch i ddangos pa leoedd fyddai **yn diflannu** a pha rai fyddai **ddim yn diflannu** pe bai Cyngor Abertawe wedi boddi Cwm Gwendraeth Fach.

| | Yn diflannu | Ddim yn diflannu |
|---|---|---|
| Pant-teg | | |
| capel Bethel | | |
| pont Allt y Cadno | | |
| ysgol Llangyndeyrn | | |
| mynwent Llangyndeyrn | | |

8 2m

**9** Tynnwch **4** llinell i gysylltu'r blychau hyn.

| | |
|---|---|
| Capel Celyn | boddi 1,120 erw o dir |
| Elan a Chlaerwen | chwalu ysgol a chapel |
| Llanwddyn | bwriadu boddi wyth fferm |
| Llangyndeyrn | 100 o bobl yn colli eu cartrefi |

9 ◯ 1m

**10** Pam roedd Beca yn meddwl bod ysgol y pentref mewn perygl?

Ticiwch **1**.

- oherwydd bod yr adeilad yn un hen iawn ☐
- oherwydd bod yr ysgol yn mynd i gael ei boddi ☐
- oherwydd na fyddai digon o blant yn byw yn yr ardal ☐
- oherwydd bod Cyngor Abertawe eisiau ei chau ☐

10 ◯ 1m

YSGOL CYMERAU

**11**

> Bydd afon Gwendraeth Fach yn troi'n llyn a bydd pont Allt y Cadno yn mynd gyda'r llif. Fydd yna ddim trip Ysgol Sul. Dim dramâu na chyngherddau yn y neuadd. Dim eisteddfod. Dim dawnsfeydd. Dim sgwrsio yn y post a siop Dai. Dim cymdeithasu yn nhafarndai'r Smith's a'r Farmer's. Dim pobl ifanc yn cerdded i bont Allt y Cadno fin nos. Dim canu carolau. Dim hel calennig.

Pa dechnegau mae'r awdur yn eu defnyddio yn y darn hwn i bwysleisio pa mor drist fyddai boddi'r cwm?

Ticiwch **2**.

- ailadrodd ☐
- ansoddeiriau ☐
- brawddegau byr ☐
- cymariaethau/cyffelybiaethau ☐
- trosiadau ☐

11 ◯ 1m

**Diwedd y prawf. Gwiriwch eich gwaith.**

CYFANSWM ◯ 8m

YSGOL CYMERAU

**Diolchiadau**

'Diogelu'r draenog' addaswyd o http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/34595062

'Y gyfrinach' addaswyd o *Cyfrinach Ifan Hopcyn* gan Eiry Miles
(Gwasg Gomer, 2013) ISBN: 9781848514966

'Achub y cwm' addaswyd o *Yr Argae Haearn* gan Myrddin ap Dafydd
(Gwasg Carreg Gwalch, 2016) ISBN: 9781845275785
ac *Achub y Cwm* gan Gwen Redvers Jones (Gwasg Gomer, 2010) ISBN: 9781848511576

Mae rhannau o'r testunau hyn wedi eu cynnwys yn y prawf hwn at ddibenion
yr arholiad yn unig yn unol ag Adran 32(3) y Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988.
Nid oes cais wedi ei wneud na hawl wedi ei roi ar gyfer unrhyw hawlfraint arall.

© Hawlfraint y Goron 2019